Cymdeithas Hanes Llanrwst a'r Cylch

Newyddlen y Gymdeithas *Rhif 8 Mehefin 2007*

Cyfarfodydd Diweddar

Chwefror: Mr John Ellis Jones oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn. 'Hanesion am Ysgol Ramadeg Llanrwst' oedd testun ei sgwrs. Aeth â ni yn ôl i'r cyfnod pan oedd yr Eglwys yn gyfrifol am addysg ac ysbytai yn ogystal ag eneidiau. Eiddo'r Eglwys oedd llawer o'r tir ac ar ôl diddymu'r mynachlogydd teuluoedd fel Wynniaid Gwydir gafodd lawer ohono. Adeiladodd Syr John Wynne ysgol i ddysgu Groeg a Lladin i feibion uchelwyr. Roedd rhaid i'r prifathro fod yn aelod o'r Eglwys, yn giwrad yn ogystal, yn Eglwys Llanddoged neu Gapel Garmon, efallai. Mae rhestr o enwau prifathrawon ar fwrdd ar fur yr ysgol a soniodd Mr Jones am bob un ohonynt hyd at ddyfodiad yr ysgol gyfun yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Roedd ganddo lawer o hanesion difyr ac roedd ei wybodaeth eang o hanes ei hen ysgol yn amlwg. Cafodd yr aelodau ei holi ac edrych ar nifer helaeth o hen luniau o eiddo Mr Jones.

Mawrth: Roeddem yn falch bod Mr Larry Davies wedi medru dod atom yn dilyn gorfod newid dyddiad oherwydd damwain. Aeth â ni ar daith ar y trên o Landudno i Flaenau Ffestiniog. Trwy gymorth sleidiau, dangoswyd sut y daeth y trên gyntaf i'r dyffryn ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dilynwyd datblygiad y gwasanaeth dros ganrif a hanner. Bu'r rheilffordd yn cyflogi nifer mawr ar un adeg a'r gorsafoedd yn lleoedd prysur iawn. Nid felly heddiw, yn anffodus, ond braf oedd gweld bod rhai o'r gorsafoedd yn edrych cystal ag erioed oherwydd gwaith caled trigolion lleol.

Ebrill: Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Ebrill 4ydd yng Ngwesty'r Eryrod. Yn dilyn y cyfarfod, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol ynghyd â sleidiau gan Norman Rogers Jones ar hanes Yr Wyddfa. Camodd Norman, sy'n aelod o Driawd Llanrwst ac o'r Gymdeithas Hanes, i'r bwlch oherwydd i Driawd Llanrwst, oedd i fod i ddiddori, fethu dod oherwydd salwch eu cyfeilydd. Ni chafodd neb ei siomi fodd bynnag gan iddo roi toreth o wybodaeth ddiddorol, megis tarddiad enwau mannau ar yr Wyddfa a hanes y gwŷr fu'n gweithio mewn mwynfeydd copr ac yn aml yn byw mewn barics ar y mynydd . Dangosodd y sleidiau olion y gweithfeydd hyn ac olion hen adeiladau. Roedd hanes y geidiau cynnar megis 'Will Boots' yn hynod ddiddorol a dillad y twristiaid cynnar i ddringo'r mynydd yn werth eu gweld. Dilynwyd hanes anhygoel codi'r rheilffordd a dangoswyd gwestai crand a godwyd ar y copa.

Mai: Y Porthmyn Cymreig oedd pwnc Idris Evans o Langollen. Roedd yn amlwg wedi trwytho ei hun yn hanes y porthmyn, yn enwedig porthmyn Ynys Môn. Soniodd am yr arwyddion sy'n dangos hen lwybr y porthmyn ar eu taith trwy ogledd Cymru mewn lleoedd fel Rhewl, ac fel y plannent goed pîn i roi cymorth i eraill ddod o hyd i'r ffordd. Dangosodd enghraifft o Geiniog Môn, sef yr arian a ddefnyddiai y porthmyn i osgoi ymosodiadau – roedd y geiniog yn ddiwerth i eraill. Gwnaeth afiaith a diddordeb amlwg Mr Evans yn ei bwnc hon yn noson fythgofiadwy.

Taith Maes

Dydd Sul Gorffennaf 8fed Castell Dolwyddelan a'r Eglwys Ymweliad yn y prynhawn i Gastell Dolwyddelan. Y gorthwr carreg sgwâr yw'r hyn sy'n weddill o'r castell godwyd gan Llywelyn ab Iorwerth [Llywelyn Fawr] yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ail-luniwyd y safle gan Edward 1af.
Mynediad: Oedolyn - £2.50 Consesiwn - £2.00, Teulu - £7.00. Byddwn yn gadael Maes Parcio Gwesty'r Eryrod am 2.00pm yn ddi-ffael. Sylwch – mae cerdded yn rhan o'r daith hon. Gobeithiwn hefyd allu ymweld â'r Eglwys.

- **Rhaid rhoi enwau i Kelvin erbyn dydd Iau, Gorffennaf 5ed fan bellaf**

Cyfarfodydd i ddod

Medi	Chwareli Cwm Penmachno gan Mr Vivian Parry Williams. Y sgwrs yn Gymraeg Bydd cyfieithu ar y pryd.
Hydref	Fy ngyrfa fel Pensaer Cadwraeth gan Mr Robin Wolley
Tachwedd	Atgofion Plentyndod yn Ysbyty Ifan a Llanrwst gan Mr Orig Williams
Rhagfyr	Sir Ddinbych a'r Rhyfel Cartref

Aelod newydd ar y Pwyllgor

Mrs Hayley Ward

- Gair i'ch atgoffa bod eich tâl aelodaeth am y flwyddyn i ddod yn ddyledus o'r Cyfarfod Blynyddol. Os nad ydych eisoes wedi adnewyddu eich aelodaeth, gallwch wneud hynny trwy alw yn siop Kelvin neu anfon siec am £5 at y Trysorydd: Mrs Mary Marrow, Firs Cottage, Maenan, Llanrwst, LL26 0YR
- *Gan y bydd ein blwyddyn ariannol o Fedi i Awst o hyn ymlaen bydd tâl aelodaeth eleni yn ddilys tan Fedi 2008!*

Gwe fan Llanrwst

Bydd gwe fan swyddogol Llanrwst yn cael ei lansio mis nesaf, gobeithio. Bydd yn safle dwyieithog i dwristiaid a thrigolion lleol fel ei gilydd. Bydd adran gan y Gymdeithas a byddwn yn gallu hysbysebu cyfarfodydd a chyhoeddiadau. Pat Rowley oedd yn gyfrifol am y deunydd hanesyddol ac fe'i cyfieithwyd gan Glenda Jones

Llyfr Heol Scotland

Lansiwyd Llyfr Heol Scotland yn Y Ras Hwyaid yn Llanrwst ac fe werthodd yn ardderchog. Mae hon, yr ail gyfrol yn ein cyfres am y Strydoedd, yn fwy na'r gyntaf a'i phris yw £6 [+£1.90 trwy'r post] – **gellir ei phrynu yn siop Kelvin**. Os am archebu copi trwy'r post, a fuasech gystal â gwneud siec yn daladwy i: **Cymdeithas Hanes Llanrwst** a'i anfon i Pat Williams, Tyngwern Isaf, Ffordd Bryn Saith, Llanrwst, LL26 0BX

Gweithredu

- Rhoddwyd caniatâd i Ymddiriedolwyr yr Elusendai uwchraddio'r cyfrifiadur (sy'n eiddo i'r Gymdeithas) a'i wella ar eu cost eu hunain
- Anfonwyd llythyrau at Cadw a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mynegi ein gofid am ddyfodol yr hen Ysgol Ramadeg
- Anfonwyd llythyrau at Gyngor Conwy am gyflwr gwael a diffyg cynnal a chadw ar adeiladau rhestredig yn y dref. Derbyniwyd atebion yn nodi derbyn ein llythyrau ac yn dweud y bydd gwaith yn dechrau'n fuan ar yr hen Central Café (Done's Bookmakers)
- Anfonwyd llythyr at y Bwrdd Iechyd lleol ynglŷn â chyflwr gwael y Clinig yn Heol Watling
- Bydd mynwent yr hen Gapel Sentars (Tabernacl) yn Heol Scotland yn cael ei chlirio a chofnodir yr wybodaeth ar y cerrig beddi.